# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Mai 2023

Amser: 09.16 - 12.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13323

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Tystion: | Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru<br>Sara Jermin, Comisiynydd Plant Cymru<br>Ruth Coombs, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? : sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru.

2.2 Cytunodd y Comisiynydd i rannu â'r Pwyllgor sylwadau gan blant a phobl ifanc ar yr effaith y mae gwahaniaethu yn ei chael ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant a sut y mae hyn yn effeithio ar ganlyniadau addysg dysgwyr.

2.3 Cytunodd y Comisiynydd i ddarparu, pan gaiff ei gyhoeddi, adroddiad ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg ar ddarpariaeth Gymraeg i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

## 3 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant? : sesiwn dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

3.2 Cytunodd y Comisiwn i gysylltu â rhanddeiliaid i weld sut beth yw darpariaeth cymorth i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig.

3.3 Cytunodd y Comisiwn i ddarparu unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod teuluoedd yn symud eu plant i ddarpariaeth arbenigol oherwydd yr amseroedd aros ar gyfer asesiadau mewn addysg brif ffrwd.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Mynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl – trafod y dystiolaeth

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiynau blaenorol.

6.2 Cytunodd yr Aelodau i fynd ar drywydd rhai pwyntiau penodol a godwyd gyda Chomisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon – trafod y dull gweithredu

7.1 Cytunodd yr Aelodau i gydweithio â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

7.2 Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am ragor o wybodaeth ac i ysgrifennu at randdeiliaid allweddol i ofyn am eu barn.

## 8 Diweddariad ar weithgareddau'r Pwyllgor

8.1 Rhoddodd yr Aelodau ddiweddariadau llafar ar weithgareddau'r Pwyllgor yr oeddent wedi'u cyflawni yn ystod y tymor.

8.2 Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cyfarfodydd a ganlyn a gynhaliwyd:

- Diweddariad ar gyfarfodydd gweinidogol misol
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

- School of Hard Knocks
- Hope not Handcuffs
- CITB
- BBFC
- Y Comisiynydd Plant
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Cymdeithas
- The Brilliant Club
- Schoolwear Association

8.3 Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ac at holl brifysgolion Cymru ar bwynt penodol a godwyd ynghylch myfyrwyr tramor.